# Cwestiynau Cyffredin ynglŷn ag Amgylchiadau Arbennig

## Pryd ddylwn i gyflwyno ffurflen amgylchiadau arbennig?

Os oes gennych amgylchiadau meddygol/personol a allai fod wedi effeithio ar eich perfformiad academaidd, dylech gyflwyno ffurflen amgylchiadau arbennig. Gall enghreifftiau gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- salwch tymor byr neu hirdymor
- trafferthion ariannol difrifol;
- trafferthion sylweddol yn gysylltiedig â llety;
- profedigaeth;
- neu resymau tosturiol eraill.

## Pa amgylchiadau nad ydym yn eu hystyried yn rhai arbennig?

Ni ystyrir bod y rhestr ganlynol yn amgylchiadau arbennig:

- trafferthion gyda chyfrifiaduron;
- dim modd defnyddio adnoddau;
- mwy nag un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith ar yr un diwrnod;
- trafferth i ymdopi â deunydd academaidd;
- cymryd rhan mewn gweithgareddau adrannol, er enghraifft gemau argyfwng, cynyrchiadau perfformio, neu deithiau astudio;
- gweithgareddau anacademaidd, sy'n cynnwys unrhyw waith rhan-amser y tu allan i'r brifysgol.

## Sut ddylwn i gyflwyno amgylchiadau arbennig?

Os ydych chi'n credu bod rhywbeth wedi effeithio ar eich perfformiad academaidd:

- **Llenwch y ffurflen ar-lein** trwy eich Cofnod Myfyriwr.

- **Uwchlwythwch dystiolaeth ategol** (e.e. nodiadau meddygol, llythyrau gan wasanaethau cymorth).
- Rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen eich hun - ni all eraill wneud hynny drosoch chi

## Pa fath o dystiolaeth fydd angen i mi ei chyflwyno i ategu fy amgylchiadau arbennig?

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ddogfennol annibynnol lle bo modd. Rhaid i'r holl dystiolaeth fod yn berthnasol i ddyddiad yr asesiad/asesiadau. Mae dogfennau derbyniol yn cynnwys, ymhlith eraill:

- tystysgrif feddygol/iechyd;
- tystysgrif marwolaeth;
- llythyr o gefnogaeth/esboniad gan wasanaeth cymorth yn y Brifysgol, neu sefydliad cymorth allanol addas. I weld manylion llawn y mathau o lythyrau y gall y Brifysgol eu darparu, ewch i: http://www.aber.ac.uk/cy/student-support/letters/;
- Weithiau mae absenoldeb o asesiad dosbarth oherwydd bod myfyriwr yn cynrychioli Prifysgol Aberystwyth mewn chwaraeon Prifysgol swyddogol yn cael ei dderbyn, ond **rhaid** cyflwyno cadarnhad swyddogol yn dystiolaeth ategol o hynny oddi wrth Undeb y Myfyrwyr;
- Pan fo amgylchiadau sy'n ymwneud â thrydydd parti wedi effeithio ar berfformiad academaidd myfyrwyr, dylai myfyrwyr geisio cyflwyno tystiolaeth ddogfennol annibynnol sy'n esbonio'r effaith y mae hyn wedi'i chael arnynt. Os nad yw hyn yn bosibl, gall myfyrwyr gyflwyno tystiolaeth sy'n ymwneud â thrydydd parti (e.e. rhiant, brawd neu chwaer) ar yr amod eu bod yn derbyn caniatâd ysgrifenedig ganddynt, y mae'n rhaid ei gyflwyno gyda'r amgylchiadau arbennig.

## Pa fath o dystiolaeth nad yw'n dderbyniol i ategu fy amgylchiadau arbennig?

Sylwch na ellir defnyddio lluniau o anafiadau fel tystiolaeth. Rhaid i unrhyw ddogfennau rydych chi'n eu cyflwyno ymwneud yn glir â'r amser pan effeithiwyd ar eich sefyllfa.

## Beth os na allaf gael tystiolaeth annibynnol o amgylchiadau arbennig?

Mae'r Brifysgol yn sylweddoli bod posibilrwydd na all myfyrwyr gael tystiolaeth ddogfennol annibynnol ym mhob amgylchiad. Os yw hyn yn wir, rhaid i chi roi disgrifiad manwl o'r amgylchiadau arbennig a'r effaith a gawsant ar eich asesiad/asesiadau. Rhowch esboniad llawn o'r rhesymau pam na fu'n bosibl cael tystiolaeth ddogfennol.

Ond, mae tystiolaeth annibynnol yn dal i fod yn amod ar gyfer cael ystyriaeth dan drefn Drws Trugaredd, Apeliadau Academaidd, Adolygiadau Terfynol, a phenderfyniadau a wneir o dan y Rheoliad Academaidd ar Gynnydd Academaidd.

## A ddylwn i gyflwyno ffurflen amgylchiadau arbennig os ydw i wedi methu dyddiad cau ar gyfer asesiad?

Os ydych wedi methu dyddiad cau asesiad am resymau meddygol/personol, dylech gyflwyno ffurflen amgylchiadau arbennig ynghyd â thystiolaeth ddogfennol sy'n berthnasol i ddyddiad/ddyddiadau cau'r asesiad/asesiadau dan sylw. Os ydych wedi colli'r dyddiad cau am resymau nad ydynt yn cael eu hystyried yn amgylchiadau arbennig, ni ddylech gyflwyno ffurflen.

## Beth ddylwn i ei wneud os oes angen i mi fod i ffwrdd o'r Brifysgol am gyfnod byr am resymau meddygol neu bersonol?

Os oes rhaid ichi fod i ffwrdd o'r Brifysgol am gyfnod byr am resymau meddygol/personol, dylech ond gyflwyno ffurflen amgylchiadau arbennig os yw'r absenoldeb wedi effeithio ar eich perfformiad mewn asesiadau. Dylech hefyd roi gwybod i'ch adran eich bod yn mynd i fod yn absennol.
Os yw'r absenoldeb yn debygol o bara am gyfnod hirach oherwydd rhesymau meddygol neu bersonol, dylech siarad â'ch adran oherwydd efallai y byddech yn dymuno tynnu'n ôl o'r Brifysgol dros dro.

## Os derbynnir fy amgylchiadau arbennig, sut y gwneir iawn am y sefyllfa?

Os yw'r amgylchiadau arbennig wedi eich rhwystro rhag cwblhau gwaith i'w asesu neu sefyll arholiad, neu wedi peri ichi fethu, gallai Bwrdd Arholi'r Senedd gymeradwyo hawl i ailsefyll am farc llawn. Nid yw'n arferol codi marc modiwl oherwydd amgylchiadau arbennig. Mae mwy o fanylion am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl i'w cael ar: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/

## A gafodd fy amgylchiadau arbennig eu derbyn?

Ar ôl eu cyflwyno, mae amgylchiadau arbennig yn cael eu hadolygu gan Banel Amgylchiadau Arbennig y Gofrestrfa sy'n cyfarfod yn rheolaidd trwy gydol pob semester i adolygu pob cais. Bydd myfyrwyr yn cael gwybod am y penderfyniad ar eu cais amgylchiadau arbennig o fewn 15 diwrnod gwaith. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd myfyrwyr yn cael gwybod am yr oedi a'r rhesymau dros hynny.